Erlyn Gyrru Gwael – Ymgynghoriad ynghylch Polisi ac Arferion Erlyn y CPS

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Erlyn Gyrru Gwael – Ymgynghoriad ynghylch Polisi ac Arferion Erlyn y CPS

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y CPS yn www.cps.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	3
Crynodeb o'r Ymatebion	4 - 5
Ymatebion i Gwestiynau Penodol	6 - 13
Casgliad a'r Camau Nesaf	14 - 16
Meini Prawf yr Ymgynghoriad	17

Cyflwyniad

Crynodeb yw hwn o'r ymatebion i 'Erlyn Gyrru Gwael – Ymgynghoriad ynghylch Polisi ac Arferion Erlyn y CPS'.

Bydd yn rhoi sylw i:-

- gefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad; a
- chasgliadau cychwynnol a'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Fe gewch ragor o gopïau o'r crynodeb hwn a'r papur ymgynghorol trwy gysylltu ag:

Ymgynghoriad Gyrru Gwael
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Cyfarwyddiaeth Polisi
United House
Piccadilly
Efrog
YO1 9PQ

Maent i'w cael trwy'r e-bost hefyd o baddriving.cpsconsultation@cps.gsi.gov.uk

Maent i'w gweld ar lein hefyd ar wefan y CPS – www.cps.gov.uk

Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2006 lansiodd y CPS ymgynghoriad cyhoeddus 'Erlyn Gyrru Gwael'. Yn Rhagair y ddogfen ymgynghorol, roedd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) yn cydnabod bod gyrru gwael sy'n arwain at farwolaeth neu anafiadau yn gallu bod â goblygiadau ofnadwy i ddioddefwyr a'u teuluoedd a'u ffrindiau, ac mor bwysig yw dangos y gweithredir cyfiawnder. Pwysleisiodd ymrwymiad y CPS i sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir yn y llys cywir, mewn achosion o'r fath.

Wrth lunio penderfyniadau erlyn, fodd bynnag, roedd y DPP yn cydnabod hefyd fod yna adegau pan nad yw'r dioddefwyr neu eu teuluoedd neu eu ffrindiau yn cytuno â'r penderfyniadau hynny, neu eu bod yn eu cael yn anodd eu derbyn neu eu deall. Dywedodd y DPP y dylai'r CPS wneud mwy i sicrhau bod penderfyniadau yn gywir, yn unol â'r gyfraith ar y pryd, ac yn adlewyrchu newidiadau yn agweddau'r cyhoedd at yrru gwael, lle bydd hynny'n bosib. Yn dilyn cyflwyno troseddau newydd o achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal ac achosi marwolaeth tra ar ffordd yn anghyfreithlon, dan Ddeddf Diogelwch y Ffyrdd 2006, penderfynodd y DPP ei bod yn adeg briodol i'r CPS adolygu ei bolisïau a'i drefniadau wrth erlyn achosion gyrru gwael. Wrth wneud hynny, ystyriai ei bod yn hanfodol y dylid cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus eang i gyfrannu gwybodaeth at yr adolygiad hwnnw.

Yn y ddogfen ymgynghorol, gofynnwyd i ymatebwyr ateb 10 cwestiwn penodol a rhoi sylwadau ychwanegol neu safbwyntiau ar ddiwedd eu hymateb. Daethai'r cyfnod ymgynghori i ben ar 16 Mawrth 2007. Mae rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o Ymatebion

1. Derbyniwyd cyfanswm o 139 ymateb i'r papur ymgynghorol. Mae'r ymatebwyr yn rhannu'n 4 categori fel a ganlyn:

    - Ymatebion gan unigolion, rai ohonynt wedi dioddef yn uniongyrchol oherwydd iddynt golli aelod o'r teulu yn sgil gwrthdrawiad traffig y ffyrdd.

    - Ymatebion gan Sefydliadau, rhai â diddordeb penodol mewn diogelwch y ffyrdd ac eraill gan gynnwys Undebau Llafur, y Wasg a'r diwydiant Yswiriant.

    - Ymatebion gan Asiantaethau o fewn y System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys yr Heddlu, Cymdeithas y Bar Troseddol, Cyngor y Bar, Cymdeithas Clercod yr Ynadon ac erlynwyr y CPS.

    - Ymatebion gan academyddion prifysgol.

Ceir manylion y pedwar categori o ymatebwyr yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Tabl o'r mathau o ymatebwyr

Crynodeb Ymatebwyr		
Categori'r Ymatebydd	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Ymatebwyr Unigol	95	68%
Sefydliadau	20	15%
Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol	17	12%
Academyddion	7	5%
Cyfanswm	**139**	**100%**

2. Ni wnaeth pob ymatebydd roi atebion neilltuol ar gyfer pob cwestiwn unigol yn y ddogfen ymgynghorol. Mae Tabl 2 isod yn dangos cyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn a pha ganran yw hynny o gyfanswm yr ymatebwyr, ni waeth beth yw eu math.

Tabl 2: Tabl o ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o gyfanswm nifer yr ymatebwyr.

Ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o'r ymatebwyr		
Cwestiwn	**Nifer yr ymatebion a ddaeth i law**	**Canran o gyfanswm yr ymatebwyr**
1	60	43%
2	60	43%
3	63	45%
4	59	42%
5	53	38%
6	50	36%
7	42	31%
8	40	29%
9	44	32%
10	7	5%
11	20	14%

3. Cafodd pob ymateb unigol ei adolygu gan Gyfarwyddiaeth Polisi y CPS. Nid yw pob ymatebydd wedi cadw at y cwestiynau penodol a osodwyd yn y ddogfen ymgynghorol ond adlewyrchir barn yr ymatebwyr yn gytbwys yn y tablau uchod ac yn y dadansoddiad manwl o'r ymatebion sy'n dilyn.

Ymatebion i Gwestiynau Penodol

1. **Beth yw eich safbwyntiau am yr ymdriniaeth a gynigir ac yn benodol ble'r ydych yn credu y gellid tynnu'r ffin rhwng achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus a dynladdiad trwy esgeuluster garw?**

   Cafwyd 60 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae nifer o ymatebwyr yn datgan y dylai dedfrydu priodol fod yn feincnod ym mhob achos difrifol. Mae rhai o'r farn mai trosedd 'ail-orau' yw Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus. Mae un ymatebydd yn credu mai'r unig gyhuddiad a ddylai fod ar gael i erlynwyr yw Llofruddiaeth neu Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus. Cred ymatebydd arall y dylid dileu trosedd Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus yn gyfan gwbl a rhoi Dynladdiad yn ei le. Yn groes, mae ymatebydd arall yn credu y dylai pobl gael eu cyhuddo o Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus fel yr hyn a elwir ganddo/ganddi yn 'gyhuddiad diofyn'. Mae mwy nag un ymatebydd yn dweud mai cyhuddiad o Ddynladdiad y dylid ei ddewis lle bo'r dystiolaeth yn dangos i'r gyrru fod yn esgeulus o'r cychwyn cyntaf. Yn olaf, mae un ymatebydd sy'n credu y dylid pennu'r terfyn gan ystyried pa mor agored i niwed yw'r dioddefydd.

   Mynegodd nifer o ymatebwyr y safbwynt bod cysyniad 'gyrrwr gofalus a chymwys' yn gysyniad amhriodol. Mae un yn awgrymu y dylid diddymu troseddau gyrru'n ddiofal a gyrru'n beryglus ac yn eu lle y dylid cael troseddau gyrru gwael a gyrrru gwael gwaethygol. Barn sy'n cael ei dal yn eang yw y dylai euogfarn am Ddynladdiad arwain at ddedfryd fwy llym nag euogfarn am Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus. Mae newid y canllawiau dedfrydu yn destun a godir yn aml yn yr ymatebion. Mae un ymatebydd yn awgrymu y dylid codi'r gosb fwyaf am Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus i garchariad am oes.

   Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau ymysg yr ymatebwyr ynghylch a fydd hi'n briodol i'r CPS ddefnyddio cyhuddiadau o Ddynladdiad ac Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus fel arall pan ddaw darpariaethau perthnasol Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006 i rym. Hoffai rhai ymatebwyr i'r CPS fabwysiadu'r polisi hwn lle bynnag y bo modd, ond cred eraill na ddylid ei ddefnyddio fel mater o drefn.

   Noda nifer o ymatebwyr y dylai unrhyw benderfyniad bwriadol i gyflawni gweithred beryglus wrth yrru sy'n arwain at achosi marwolaeth, olygu cyhuddiad o Ddynladdiad. Byddai'n well gan eraill i gyhuddiad Dynladdiad gael ei gadw ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, lle bo dedfryd o fwy na 14 blwyddyn yn debygol.

   Mae eraill yn tynnu sylw at gyflymder fel ffactor o bwys sy'n cyfrannu at wrthdrawiadau angheuol. Mynegodd tri o'r ymatebwyr y farn y dylai cyflymder gormodol sylweddol gael ei ystyried yn esgeulus.

   Cred ymatebydd arall y dylid defnyddio cyhuddiad o Ddynladdiad trwy esgeuluster garw yn fwy aml, nid i gynyddu'r ddedfryd debygol o anghenraid, ond i adlewyrchu'n addas y gwir droseddolrwydd a chyfleu cerydd am y cam a wnaethpwyd.

2. **A oes angen newid y cyfarwyddyd ar gyfer erlynwyr (gan gynnwys yr enghreifftiau a roddir ar gyfer pob trosedd)? Os oes, a wnewch chi ddweud pam.**

   Cafwyd 60 ymateb i'r cwestiwn hwn. Y farn fwyaf cyffredin yw y dylai defnyddio ffôn symudol wrth yrru gael ei ystyried yn beryglus bob tro. Ar ben hyn, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at beryglon gyrwyr ddim yn canolbwyntio tra byddant yn addasu/rhaglennu offer llywio â lloeren neu chwaraeydd MP3.

   Cred un ymatebydd y dylai'r cyfarwyddyd gyfeirio at ddiogelwch cerddwyr mewn croesfannau lle mae goleuadau traffig. Mae ymatebydd arall eisiau i baragraff 126 gyfeirio ar seiclwyr a rhai sy'n marchogaeth ceffylau. Awgrymodd un ymatebydd hefyd y dylai fod yna ryw gyfeiriad penodol at groesfannau gwastad. Mae ar fwy nag un ymatebydd eisiau gweld rhagor o gyfeirio at ba mor agored i niwed yw darpar ddioddefwyr mewn gwrthdrawiad.

   Nid yw un ymatebydd yn cytuno y dylai gyrru araf fyth gael ei ddosbarthu'n yrru anystyriol. Pwysleisia un arall mai cyfarwyddyd yn unig yw cyfarwyddyd, ac na ddylid ei ystyried yn rhagnodol ac allgynhwysol. Yn ei sylwadau, dywed un ymatebydd y dylai paragraff 120 gyfeirio at effeithiau blinder, ac y dylai'r cyfarwyddyd gyfeirio'n benodol at Reolau'r Ffordd Fawr. Carai un arall weld mwy o dynnu sylw at beryglon gormod o gyflymder yn benodol, a pha mor agored i niwed yw eraill megis cerddwyr a seiclwyr. Awgrymir hefyd y dylai'r holl enghreifftiau o yrru diofal gael eu hystyried yn beryglus ac mai'r unig rai y dylid eu hystyried yn ddiofal yw'r rhai a restrir yn anystyriol ac y dylai'r CPS ddefnyddio safonau profi yr Asiantaeth Safonau Gyrru i wahaniaethu rhwng gyrru peryglus a gyrru diofal.

   Awgryma un ymatebydd y dylai fod gan erlynwyr gyfarwyddyd llawer yn fwy penodol ynghylch effaith cyflymder a'r berthynas rhwng blinder a throseddau rheoleiddiol megis torri rheolau tacograff ar gyfer cerbydau masnachol. Hoffai un arall weld cyfarwyddyd mwy penodol ynghylch peryglon posib bwyta, yfed neu ysmygu wrth yrru. Mae ymatebydd arall yn nodi nad yw'n dymuno i unrhyw gyfarwyddyd newydd fod yn rhy ragnodol, gan awgrymu y dylid ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun. Cytuna ymatebydd arall â'r farn hon, gan awgrymu mai dim ond hyd at ryw bwynt y mae enghreifftiau penodol yn ddefnyddiol, ond noda fod y cyfarwyddyd yn pwysleisio'r angen i benderfyniadau fod yn neilltuol i'r achosion dan sylw. Mae pump o ymatebwyr eraill yn credu bod yr enghreifftiau o yrru'n beryglus yn briodol, ond byddent yn ychwanegu goddiweddyd ar yr ochr fewnol, gyrru'n rhy agos at gerbyd arall, gyrru trwy olau coch a dod allan o ffordd ochr i lwybr cerbyd arall.

3. **Beth yw eich safbwyntiau ar ddiffyg sylw am eiliad a chamfarnu unigol? Ym mhle mae'r ffin rhwng gyrru'n beryglus a gyrru'n ddiofal yn eich barn chi?**

   Cafwyd 63 ymateb i'r cwestiwn hwn. Credai llawer o'r ymatebwyr nad oedd ond ychydig o wahaniaeth, neu ddim gwahaniaeth rhwng y ddwy sefyllfa, ond maent yn cydnabod fod hwn yn fater anodd. Mae mwy nag un ymatebydd yn awgrymu y dylid cyfyngu gyrru'n ddiofal ar gyfer gwrthdrawiadau a achosir gan bethau y tu hwnt i reolaeth y gyrrwr. Barn arall sy'n dod yn amlwg yw fod unrhyw beth sy'n torri cyfraith traffig y ffyrdd yn beryglus. Byddai'n well gan rai ymatebwyr weld prawf 'gyrru gwael' yn hytrach na gyrru diofal neu beryglus. Mae llawer o'r farn y gall un digwyddiad fod yn beryglus. Barn arall a fynegir yw y dylid ystyried unrhyw yrru yn yrru peryglus os yw'n yrru gwael a fyddai'n golygu y byddech yn methu eich prawf gyrru. Ar y cyfan, ystyrir gyrru ymosodol yn beryglus yn yr ymatebion. Awgryma un ymatebydd y dylid

rhagdybio gyrru peryglus ym mhob achos angheuol, a noda un arall na ddylid byth ystyried y sefyllfaoedd hyn yn rhai o yrru'n ddiofal yn unig.

Cred un ymatebydd bod y diffiniad presennol yn rhy oddrychol ac mae'n well ganddo droseddau newydd o yrru gwael a gyrru gwael gwaethygol. Mae o'r farn y byddai hyn yn cynnig prawf gwell a mwy gwrthrychol i erlynwyr. Mae'n awgrymu hefyd y dylai unrhyw enghraifft o dorri Rheolau'r Ffordd Fawr ynghyd ag elfen waethygol fod yn yrru peryglus, ac y dylid ystyried unrhyw dorri rheolau syml yn yrru diofal. Mewn unrhyw achosion sydd ar y ffin, cred y dylid mynd am y cyhuddiad mwy difrifol.

Carai ymatebydd arall i ni roi ystyriaeth i fwriadau'r gyrrwr wrth benderfynu pa drosedd sy'n briodol. Mae un ymatebydd yn ffafrio proses o wneud penderfyniadau mewn dau gam, gydag asesiad goddrychol o gyflwr meddwl y gyrrwr yn gysylltiedig â phrawf gwrthrychol o resymoldeb neu beidio y gyrru ei hun. Ym marn un arall, mae bod yn drugarog tuag at ddiffyg sylw am eiliad a chamfarnu unigol, wedi cyfrannu at oddef gyrru gwael yn y gorffennol, a chefnoga'r farn y gall digwyddiadau unigol fod yn beryglus. Y mae, fodd bynnag, yn derbyn y gall gyrwyr wneud camgymeriadau gonest.

Mae ymatebydd arall yn credu y dylid diffinio gyrru peryglus fel rhywbeth sy'n torri'r gyfraith a/neu sydd â'r potensial i achosi marwolaeth neu anafiadau difrifol. Mae'n awgrymu y dylai gyrru diofal fod yn rhywbeth sy'n torri'r rheolau a/neu sydd â'r potensial i achosi mân anafiadau. Ym marn un ymatebydd, mae trosedd gyrru'n ddiofal yn anaddas ym mhob achos lle digwyddodd niwed personol.

Yn ôl un ymatebydd y gair hanfodol yw 'am eiliad' (*momentary*). Nid yw un arall yn credu y dylai canlyniadau gweithredoedd y gyrrwr fod yn fan cychwyn ar gyfer gwneud penderfyniad cyhuddo. Cred dau o'r ymatebwyr fod yn rhaid ystyried pob darn o yrru yn wrthrychol wrth lunio penderfyniad cyhuddo. Mae pedwar o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai un digwyddiad o ddiffyg sylw am eiliad yn llawer mwy tebygol o fod yn yrru diofal ac na ddylai canlyniadau'r gyrru bennu'r penderfyniad cyhuddo. Mae dau o'r ymatebwyr yn nodi'n benodol eu bod yn croesawu'r troseddau newydd a gyflwynir dan Ddeddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

4. **A wnewch chi roi unrhyw safbwyntiau, sylwadau ac enghreifftiau o achosion yn ymwneud â chyflymder gormodol lle nad oedd y penderfyniad rhwng gyrru'n ddiofal neu yrru'n beryglus yn benderfyniad clir.**

Cafwyd 59 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cyflymder gormodol bob amser gael ei ystyried yn yrru peryglus. Cred nifer o ymatebwyr nad yw troseddau goryrru yn cario unrhyw stigma yn y gymuned. Mae un ymatebydd o'r farn hon: lle bynnag y bo gwrthdrawiad yn debygol o fod oherwydd cyflymder gormodol, y dylai'r cyhuddiad bob amser fod yn yrru peryglus, fel arall dylai'r cyhuddiad yn syml fod yn un o oryrru, ond byth yn yrru diofal. Mae un arall yn credu nad yw goryrru ar ei ben ei hun ond yn briodol pan nad oes unrhyw berygl i eraill. Mae ymatebwyr eraill eisiau gweld mwy o bwyslais ar y term 'cyflymder priodol' yn hytrach na therfynau cyflymder. Mae un ymatebydd nad yw'n argyhoeddedig mai cyflymder yw'r unig fater o bwys mewn unrhyw achos byth.

Ystyria un ymatebydd fod cyflymder gormodol yn yrru peryglus ac yn ffactor sy'n cyfrannu at lawer o wrthdrawiadau angheuol. Mae un arall yn derbyn y penderfyniad diweddar yn achos Milton v CPS[1], na all cyflymder gormodol ynddo'i hun fod yn sail

[1] [2007] EWHC 532

ar gyfer euogfarn ar gyfer gyrru'n beryglus, ond pwysleisia fod angen ystyried amgylchiadau unigol pob achos. Mae ymatebydd yn mynegi'r farn nad yw'r terfynau cyflymder cyfredol yn gyfystyr â chyflymder gyrru diogel o gwbl.

Cred un ymatebydd na all cyflymder ar ei ben ei hun fod yn beryglus a bod yn rhaid edrych arno mewn perthynas â risg. Hefyd, mae'n ffafrio cysyniad 'cyflymder priodol' yn hytrach na'r terfyn cyflymder gwirioneddol. Ym marn ymatebydd arall, yn y gorffennol tueddodd y CPS i fod yn geidwadol wrth ymdrin â chyflymder. Mewn ymateb arall, mynegir y farn fod cyflymder yn ffactor mor bwysig mewn gwrthdrawiadau nes bod angen i'r CPS fod yn fwy gweithredol o ran sicrhau gwell tystiolaeth o oryrru. Mae ymatebydd arall yn tynnu sylw at effaith cyflymder gormodol ar amseroedd adweithio a phellteroedd stopio gyrwyr.

5. **A wnewch chi roi unrhyw safbwyntiau a sylwadau am arferion erlyn ym maes atebolrwydd cyflogwyr/corfforaethol.**

Cafwyd 53 ymateb i'r cwestiwn hwn. Noda un ymatebydd na ddylai erlynwyr ystyried erlyniadau yn ymwneud â nam ar gerbyd fel yr unig ddewis ar gyfer erlyn cyflogwyr. Awgryma un arall y dylid cael cyswllt agos rhwng y CPS a'r HSE. Mae mwy nag un ymatebydd yn awgrymu y dylai penderfyniadau erlyn adlewyrchu'r angen i gyflwyno achosion yn y fath fodd fel bod euogrwydd yn cael ei ddosrannu'n briodol rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr. Mae nifer o ymatebwyr o'r farn fod cyflogwyr yn amharod i ddisgyblu gweithwyr am ddefnyddio cerbydau'r cwmni yn ddiofal.

Maes arall sy'n peri pryder yw y dylai fod yn rhaid i gyflogwyr wirio iechyd eu gweithwyr yn briodol, ble gallai hynny effeithio ar eu gallu i yrru'n ddiogel yn ystod eu cyflogaeth. Barn gyffredin yw y dylai cyflogwyr, sy'n rhoi pwysau ar eu gweithwyr i dorri'r gyfraith, gael eu dwyn i gyfrif. Sylwa un ymatebydd fod yn rhaid i'r gyfraith weithredu'n deg, gan roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng busnesau bach â gweithlu bach a fflyd fach o gerbydau, a busnesau mawr, megis cadwyni archfarchnadoedd, sydd â gweithlu mawr a fflyd fawr o gerbydau.

Ym marn un ymatebydd nid yw atebolrwydd corfforaethol yn mynd yn ddigon pell, a hoffai weld rhwymedigaethau i sicrhau y cynhelir profion meddygol ac y sefydlir asesiadau risg ar gyfer diogelwch cerbydau a gyrwyr y cwmni. Mae un arall yn ffafrio asesiadau risg ac yn nodi y dylai cyfarwyddyd i'r erlynwyr roi sylw i holl feysydd gweithwyr yn gyrru wrth eu gwaith ac nid canolbwyntio ar gerbydau HGV, bysiau a choetsys yn unig.

Mae pedwar o'r ymatebwyr yn credu bod y cynigion yn y papur yn dderbyniol ar y cyfan, ond pwysleisia un mor bwysig yw cael cyflogwyr yn sicrhau bod eu gyrwyr â thrwyddedau priodol i yrru. Cefnogir y cyfarwyddyd gan un arall ond awgryma ganllawiau ychwanegol yn ymwneud â gwirio iechyd, a gwirio cymwysterau a chymhwyster gyrwyr i yrru.

Mae ymatebydd arall yn credu y dylid mynd i'r afael â chyflogwyr am achosion gwael o gadw cofnodion, lle bo'n briodol, ac mae'n ffafrio erlyn unrhyw gyflogwr a roddodd orchymyn neu anogaeth i weithiwr fynd yn erbyn y rheolau, megis y rhai'n ymwneud ag oriau gyrwyr.

Noda un ymatebydd mai un mater nad yw'n cael sylw yn y cyfarwyddyd yw'r perygl a all godi o ganlyniad i gyflwr y gyrrwr yn hytrach na'r cerbyd. Mae pump o'r ymatebwyr yn ystyried y dylid mynd ati i erlyn bob tro lle gellir dangos bod cyflogwr wedi methu darparu rheolaeth weithredol o ran diogelwch.

6. **Beth yw eich barn am yr adolygiad arfaethedig i bolisi 'anwyliaid' y CPS?**

Daeth 50 ymateb i law ar gyfer y cwestiwn hwn, a cheir cefnogaeth eang i'r newidiadau arfaethedig. Mae rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu oni ddylai'r newidiadau fynd ymellach. Llinyn cyffredin yn yr ymatebion hyn yw fod materion 'anwyliaid' yn faterion ar gyfer lliniaru dedfryd ac nid yn rheswm ar gyfer peidio ag erlyn.

Awgryma rhai ymatebwyr y dylai'r polisi ymestyn i gynnwys achosion lle digwyddodd anaf difrifol.

Ym marn un ymatebydd, fodd bynnag, ni ddylid newid y polisi.

7. **<u>A wnewch chi ddarparu unrhyw safbwyntiau a sylwadau ynghylch y canlynol:</u>**

a) Yn eich barn chi, lle mae'r CPS yn methu ar hyn o bryd o ran gofalu am ddioddefwyr a thystion mewn achosion traffig y ffyrdd, yn enwedig rhai lle'r achoswyd marwolaeth?;

Cafwyd 42 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o ymatebwyr yn sôn am ddiffyg empathi ar ran y CPS mewn achosion. Disgrifia eraill ddiffyg ymrwymiad o ran erlynwyr ac ym marn rhai, nid yw dioddefwyr yn cael eu trin â digon o barch nac urddas. Barn gyffredin arall yw y gall diffyg ymrwymiad gan erlynwyr wneud iddynt esgeuluso agweddau pwysig ar y dystiolaeth mewn rhai achosion. Mae'r holl ymatebwyr yn dymuno gweld gwell cyfathrebu rhwng y CPS, dioddefwyr a thystion mewn achosion traffig y ffyrdd ac yn arbennig yn y rhai lle bu marwolaeth ac anafiadau difrifol.

Mae llawer o'r ymatebwyr yn pwysleisio bod angen i benderfyniad y CPS gael ei esbonio yn briodol i'r dioddefwyr a'u perthnasau ac y dylid cynnig cyfarfod iddynt cyn y gwneir y penderfyniad. Byddai un ymatebydd yn hoffi gweld y CPS yn cynorthwyo dioddefwyr a'u perthnasau i ddelio â'r wasg yn yr achosion hyn.

Prydera un ymatebydd y gadewir dioddefwyr yn ddryslyd yn aml, ac nad ydynt yn deall y penderfyniad a wnaed. Maent yn teimlo wedi'u dieithrio, oherwydd na holwyd eu barn. Mae un arall yn credu y dylid gwella'r cyfathrebu rhwng y CPS a'r heddlu, y dylid arfer mwy o ofal ynghylch materion cyfrinachol ac y dylid osgoi'r term 'damwain' ym mhob achos.

Aeth tri ymatebydd ati i fynegi'r farn nad yw cydymdeimlad yn gallu cymryd lle cyfiawnder a'i bod o'r pwysigrwydd pennaf y cynigir cyfarfodydd yn gynnar ac y rhoddir gwybodaeth gywir i ddioddefwyr. Credant hefyd bod y cyfleusterau i ddioddefwyr a'u teuluoedd yn y llys yn aml yn annigonol, yn arbennig y diffyg ystafelloedd a mannau aros preifat. Ânt ymhellach trwy bwysleisio, yn y llys ei hun, y dylai cyfreithyddion y CPS a'u hasiantwyr sicrhau eu bod yn dangos parch ac yn rhoi ystyriaeth i deuluoedd y dioddefwyr trwy osgoi cyswllt agos amhriodol â chyfreithyddion yr amddiffyniad.

Mae un ymatebydd yn eiriol o blaid ymdriniaeth barchus, gyson gan y CPS.

Mae un ymatebydd o'r farn y bu gwelliant mawr yn ddiweddar, ond carai weld rhagor o gysondeb a gwell hyfforddiant i erlynwyr. Mae gwell hyfforddiant i erlynwyr yn cael

ei godi gan ymatebydd arall ac ym marn ymatebydd arall mae angen gofal arbennig pan fo teuluoedd mewn profedigaeth yn cael eu siomi gan y ddedfryd a roddir, a bod angen iddynt gael esboniad gofalus o ddarpariaethau dedfrydu rhy drugarog.

b) Yn eich barn chi, pa gamau y gellir eu cymryd i unioni'r methiannau hyn a gwella gofal tystion, yn enwedig cynnig gwell gwasanaeth i deuluoedd mewn profedigaeth?

Mae nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn argymell dod i gysylltiad yn gynharach â pherthnasau mewn profedigaeth, a chyfathrebu cyson. Hefyd, byddent yn dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch achosion, a gwell gwybodaeth i deuluoedd mewn profedigaeth am wrandawiadau llys a'r angen i fynychu'r llys. Cyfeirir at y CPS yn cymryd rhan yn fwy agos adeg cwest. Mae mwy nag un ymatebydd yn cyfeirio at y trallod a achosir pan fo'n rhaid i berthnasau mewn profedigaeth dalu am gopïau o adroddiadau damweiniau er bod y diffynnydd yn eu cael am ddim. Gofynna nifer o'r ymatebwyr am i gyfarfodydd gyda'r CPS gael eu galw gan y CPS ei hun, ac nid pan fydd perthnasau mewn profedigaeth yn gwneud cais am gyfarfod yn unig. Awgrymir gwell hyfforddiant i staff y CPS gan sawl ymatebydd, felly hefyd gymryd rhan yn y Cynllun Adfocad Dioddefwyr.

Cred un ymatebydd y byddai gwell gwasanaeth yn mynd yn bell iawn tuag at wella cyfathrebu a'i bod yn 'hollol hanfodol' cael cyfarfod gyda'r dioddefwr a'r teulu cyn y gwneir penderfyniad cyhuddo. Mae'r un ymatebydd o'r farn y dylid cynnal rhagor o gyfarfodydd ar ôl cyhuddo, ac y dylid ehangu'r Cynllun Adfocad Dioddefwyr i gynnwys achosion gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

Mae tri ymatebydd arall yn cefnogi'r awgrym i gael cyfarfod cyn cyhuddo, ac yn gofyn yn arbennig am i'r term 'damwain' beidio â chael ei ddefnyddio yn yr achosion hyn. Mae ar ymatebydd arall eisiau i berthnasau mewn profedigaeth dderbyn gwell gwybodaeth ar gam cynnar ynghyd â chael eu cyfeirio at asiantaethau cefnogi, a byddent yn dymuno gweld y Cynllun Adfocad Dioddefwyr yn cael ei ehangu i gynnwys achosion sy'n cynnwys marwolaethau ar y ffyrdd.

8. **Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol i erlynydd yr achos fynychu'r cwest? Os ydych, pam?**

Cafwyd 40 ymateb i'r cwestiwn hwn. 28 o'r ymatebwyr sydd o blaid hyn. Mae 9 yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol ond nid yn hanfodol, 2 yn credu mai mater i'r CPS yw penderfynu, ac nid yw 1 yn credu ei fod yn angenrheidiol. Mae llawer o'r ymatebwyr sydd o blaid yn credu y byddai'n helpu'r erlynwyr fod yn fwy gwybodus am eu hachosion, a chred rhagor nag un hefyd y byddai'r teuluoedd mewn profedigaeth yn gweld bod gan y CPS ddiddordeb agos yn yr achos.

9. **A ddylai erlynwyr achosion fynychu'r llys yn rheolaidd ac erlyn achosion traffig y ffyrdd lle'r achoswyd marwolaeth?**

Cafwyd 44 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae 42 o blaid, 1 yn credu bod hyn yn angenrheidiol mewn achosion difrifol yn unig a'r ymatebydd olaf nad yw'n ei ystyried yn angenrheidiol ar yr amod bod yr adfocad sy'n cyflwyno'r achos wedi'i gyfarwyddo'n llawn ac yn gallu cwrdd â'r teulu mewn profedigaeth.

10. **A oes unrhyw ran o'r ddogfen ble'r ydych yn anghytuno'n gryf. Os oes, a wnewch chi nodi pa baragraff ac egluro'n fyr pam rydych yn anghytuno.**

Cafwyd 7 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae un ymatebydd yn anghytuno â pharagraffau 50, 54, 78, 81 a 95 ac yn datgan na ddylai fod yna ddewis rhwng gyrru diofal a gyrru peryglus os yw'r gyrru hwnnw wedi achosi marwolaeth. Cred ymatebydd arall fod elfen hunanfoddhaus ym mharagraff 133, yn enwedig yr ail frawddeg. Mae un ymatebydd yn anghytuno â pharagraffau 73 a 75 ac yn credu y dylai troseddau Dynladdiad ac Achosi Marwolaeth trwy Yrru'n Beryglus gario dedfryd leiafswm a gorfodol o garchariad.

Anghytuna un ymatebydd â pharagraff 121 a chred fod yn rhaid i'r holl yrru sy'n achosi marwolaeth fod yn yrru peryglus oni bai fod yna amgylchiadau hynod eithriadol. Mae ymatebydd arall yn anghytuno â pharagraff 163 gan wrthwynebu polisi o ystyried graddau camgymeriad y gyrrwr yn unig ac nid y niwed a achoswyd, wrth benderfynu ar brawf budd y cyhoedd. Mae'r un ymatebydd yn anghytuno â pharagraff 5.10 y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron (Atodiad A yn y ddogfen ymgynghorol) ac nid yw'n ystyried y dylai gwneud gwir gamgymeriad ei gwneud hi'n llai tebygol fod angen erlyn am yrru'n ddiofal.

Mae ymatebydd arall yn anghytuno â pharagraff 83 bod angen tystiolaeth o fod yn beryglus ar gyfer trosedd Gyrru'n Ddi-hid a Chynddeiriog.

Mae ymatebydd arall yn anghytuno â pharagraff 2 bod y llysoedd yn fwy parod i gael diffynnydd yn euog o yrru'n beryglus gyda thystiolaeth a fyddai wedi cael ei hystyried yn yrru diofal o'r blaen. O ran paragraff 10, cred yr ymatebydd hwn mai'r heddlu sy'n dal i wneud y penderfyniadau cyhuddo yn y rhan fwyaf o achosion o wrthdrawiad ag anafiadau difrifol ac nad oes gan y CPS ran ond yn yr achosion lle bu gwrthdrawiad a achosodd farwolaeth neu a fu bron â gwneud hynny. O ran adolygiad 2002 yr HMCPSI, y cyfeirir ato ym mharagraff 18, nid yw'r ymatebydd hwn yn ystyried fod yr adolygiad wedi edrych ar sampl o achosion cynrychioliadol, gan nad oedd yna achosion lle gwnaed y penderfyniad i gyhuddo ai peidio gan yr heddlu.

11. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y ddogfen na chafodd sylw hyd yma?**

Gwneir nifer o sylwadau ychwanegol gan 20 o'r ymatebwyr. Noda un na chyfeirir at waharddiad oes rhag gyrru yn yr ymgynghoriad. Sylwa un arall y dylid gwneud mwy i reoli achosion traffig y ffyrdd er mwyn rheoli'r costau cyfreithiol sy'n cael eu creu ganddynt. Mae un arall yn obeithiol, os gwrandewir ar farn y cyhoedd ac y gweithredir arni, y bydd gwelliant mewn safonau gyrru ac y bydd pobl yn teimlo y gweinyddir cyfiawnder.

Mae dau o'r ymatebwyr yn dweud bod gan y CPS waith i'w wneud i ennyn hyder y cyhoedd yn yr achosion hyn. Dywed ymatebydd arall nad oes unrhyw sylwadau ac na roddir ystyriaeth i effaith amodau gyrru andwyol cudd megis iâ du neu ddŵr yn sefyll. Hola ymatebydd arall pa mor aml y bydd y CPS yn derbyn pledion euog fel mater o gyfleustra.

Croesewir yr ymgynghoriad gan un ymatebydd a gobeithia y bydd agweddau'n newid o ganlyniad iddo. Yn groes, dywed un arall fod tôn y papur ymgynghorol yn ddibrisiol a'i fod yn portreadu marwolaethau ar y ffyrdd fel rhywbeth sydd ar y cyfan yn anghyfleustra i'r CPS, tra bo un arall o'r farn nad yw'r CPS yn trin gyrwyr sy'n lladdwyr fel troseddwyr.

Mynega ymatebydd gwahanol ei siom nad yw'r ymgynghoriad ond fel petai'n amgyffred y posibilrwydd y gwneir penderfyniadau erlyn mwyfwy llym. Cred yr ymatebydd hwn fod hyn yn adlewyrchu '*an unhealthy focus on appeasing a generalised public relish for a retributive approach to criminal justice, which is particularly inappropriate in motoring cases'*. Barn ymatebydd arall yw y bydd Erlynwyr yn methu prawf budd y cyhoedd os byddant yn mynd i'r afael â phenderfyniadau erlyn gyda'r bwriad o sicrhau'r cyhuddiad ar y lefel uchaf bosib, yn hytrach na gyda'r bwriad o gyfrannu at ffyrdd saffach a moduro saffach.

Carai un ymatebydd weld mwy o gyfeirio ar Reolau'r Ffordd Fawr. Cred ymatebydd arall fod y gyfraith a'r CPS yn ymboeni mwy am erlyn dim ond pan fydd yna ganlyniadau trasig yn hytrach nag erlyn gyrru gwael, ac y dylai ailaddysgu fod yn ddewis wrth ddedfrydu, er mwyn gwneud troseddwyr yn ymwybodol o ganlyniadau eu gyrru. Yn ôl ymatebydd arall, dylid adolygu terfynau cyflymder cenedlaethol, a'u codi, oherwydd bod ceir modern yn gallu perfformio'n ddiogel a dibynadwy ar gyflymder uwch nag o'r blaen. Sylw arall yw nad oes unrhyw bwynt newid rheolau traffig y ffyrdd oni bai fod yna orfodi effeithiol a bod angen mwy o Swyddogion Patrol Traffig y Ffyrdd penodol i wneud hyn.

Dywed un ymatebydd y dylid cael un trosedd o 'Achosi Marwolaeth trwy Yrru' ac y dylid gadael i'r llys benderfynu ar lefel yr euogrwydd ym mhob achos. Cred yr ymatebydd y byddai hyn yn cael gwared ar y posibilrwydd o erlyn am y trosedd anghywir.

Mae llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai pob achos sy'n cynnwys marwolaeth gael ei ddwyn gerbron Llys y Goron.

Noda un ymatebydd fod yn rhaid i fudd y cyhoedd gynnwys gwella diogelwch y ffyrdd fel amcan. Gwêl un arall fod angen dod â'r gyfraith a chyfiawnder yn agosach at ei gilydd.

Yn ôl ymatebydd gwahanol, nid oes cyfeiriad at yrru gwael wrth neu yn ymyl rheilffyrdd yn y papur ymgynghorol, a noda fod llawer o wrthdrawiadau, lle bydd niwed difrifol neu'r potensial i gael niwed difrifol i'r cyhoedd sy'n teithio ar y rheilffordd, yn cael eu hachosi gan yrru gwael, a'r enghraifft fwyaf amlwg o hyn yw gwrthdrawiadau ar groesfannau gwastad yn ogystal ag esiamplau eraill o gerbydau ffordd yn tresbasu.

Cyfeiria un ymatebydd at ddefnyddio troseddau nad ydynt yn rhai traffig y ffyrdd pan fydd anafiadau difrifol wedi cael eu hachosi, er enghraifft troseddau dan Adran 20 Deddf Troseddau Corfforol 1861. Mae'r un ymatebydd yn awgrymu y gellid cynyddu'r gosb am y trosedd o fethu stopio ar ôl damwain ble achosir marwolaeth neu anafiadau difrifol, gan gyflwyno'r posibilrwydd hefyd y gellid gwrando'r achos yn Llys y Goron.

Mae ymatebydd arall yn dweud fod y ddogfen ymgynghorol, boed hynny'n fwriadol ai peidio, yn canolbwyntio gormod ar wrthdrawiadau angheuol pan fo angen polisi erlyn cadarn ar gyfer gyrru gwael yn ei gyfanrwydd.

Casgliadau a'r Camau Nesaf

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad a'r amser a roesant i wneud hynny. Sylweddolwn y bu hyn yn arbennig o anodd i bobl a ddioddefodd yn uniongyrchol oherwydd colled bersonol o ganlyniad i yrru gwael.

Mae'r ymatebion wedi dangos y gall gyrru gwael a'i ganlyniadau achosi cryn drallod, yn enwedig pan fydd rhywun wedi marw neu wedi cael anafiadau difrifol. Mae'n amlwg hefyd fod mater diogelwch y ffyrdd yn ysgogi cryn drafodaeth.

Mae'r CPS wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisi erlyn yn galluogi ein herlynwyr i ddod i'r penderfyniadau cyhuddo cywir nid yn unig yn unol â'r gyfraith bresennol, ond hefyd, lle bo hynny'n iawn a chyfreithlon, gan gymryd i ystyriaeth y modd y mae agweddau'r cyhoedd yn newid ac awydd dioddefwyr neu eu teuluoedd a'u cyfeillion i weld gweinyddu cyfiawnder.

Yn ddiweddarach eleni byddwn yn Cyhoeddi Polisi ar Erlyn Achosion Gyrru Gwael ac ar yr un pryd byddwn yn cyhoeddi canllawiau i erlynwyr sy'n ymdrin â'r achosion hyn. Bydd hyn yn sefydlu trefniadau y gall dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol ymddiried ynddynt.

Y mae eisoes yn glir o'r ymatebion i gwestiynau penodol fod yna nifer o faterion i ni eu hystyried. Yn arbennig:-

1. Mae yna amrywiaeth eang o safbwyntiau am bolisi'r CPS ynghylch erlyn achosion gyrru gwael ar gyhuddiad o ddynladdiad, yn enwedig dynladdiad trwy esgeuluster garw. Mae llawer o ymatebwyr yn ffafrio gweld defnydd ehangach o gyhuddiad dynladdiad, a gwelant hyn yn ffordd i'r llysoedd roi dedfrydau llymach. Er bod eraill yn credu y dylid cadw dynladdiad ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol yn unig.

   Maes o law, bydd y ddarpariaeth wahanol ar gyfer dedfrydu yn Neddf Diogelwch y Ffyrdd 2006[1] yn darparu rhwyd ddiogelwch yn y dyfodol mewn erlyniadau dynladdiad sy'n ymwneud â gyrru gwael, yn enwedig lle bydd y dystiolaeth o esgeuluster garw yn agosáu at y ffin dystiolaethol gyda'r trosedd o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus. Fodd bynnag, ni chawsom ein perswadio y dylai'r CPS newid ei ymdriniaeth er mwyn erlyn fel mater o drefn ar gyfer dynladdiad trwy esgeuluster garw mewn amgylchiadau lle byddem ar hyn o bryd yn erlyn am achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus. Fel y dangoswyd yn y papur ymgynghorol, ym mwyafrif yr achosion, lle bydd rhywun yn marw o ganlyniad i yrru peryglus, trosedd o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus fydd y cyhuddiad cywir o hyd. Yr ydym, fodd bynnag, yn ystyried y dylid darparu canllawiau manylach i erlynwyr ynghylch pryd y byddai'n briodol erlyn am ddynladdiad fel y gellir sicrhau y defnyddir cyhuddiadau priodol mewn achosion unigol.

   Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor Canllawiau Dedfrydu (SGC) ymgynghoriad[2] cyhoeddus yn ymwneud â throseddau achosi marwolaeth trwy yrru a bydd yn cyhoeddi canllawiau yn ddiweddarach eleni neu'n gynnar y flwyddyn nesaf. Bydd yn rhaid i'r CPS ystyried y rhain wrth roi cyfarwyddyd ynghylch pryd y byddai'n briodol erlyn ar gyfer dynladdiad. Fe fydd y canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r troseddau newydd dan ddarpariaethau Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006, a drafodir ymhellach ym mharagraffau 11 a 12 isod.

[1] Adran 33
[2] http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/consultations/closed/index.html#driving

2. Mae'n amlwg fod pryder eang ymysg y cyhoedd ynghylch peryglon cynhenid defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau trydanol eraill wrth yrru, yn enwedig os ydynt yn rhai i'w dal yn y llaw. Rydym yn derbyn, mewn achosion lle bydd tystiolaeth amlwg yr achoswyd perygl trwy eu defnyddio, y dylem wneud cyhuddiad o yrru'n beryglus yn fan cychwyn ar gyfer ein penderfyniadau cyhuddo, a bydd ein polisi a'n canllawiau yn cadarnhau hyn.

3. Hefyd byddwn yn cynnwys cyfeiriadau manylach at Reolau'r Ffordd Fawr, ac yn rhoi rhagor o gyfarwyddyd ar beryglon posib gyrru tra'n dioddef blinder neu ffurfiau eraill o amhariad corfforol a meddyliol. Byddwn yn sicrhau bod y polisi a'r canllawiau yn rhoi sylw i beryglon neilltuol sy'n wynebu seiclwyr a cherddwyr o ganlyniad i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd yn gyrru'n wael.

4. Ym marn nifer o ymatebwyr, dylai troseddau eraill ddod yn lle gyrru'n beryglus a gyrru'n ddiofal. Un enghraifft a roddir yw troseddau gyrru gwael a gyrru gwael gwaethygol. Rhaid i'r CPS, fodd bynnag, gymhwyso'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd, gan edrych ar y dystiolaeth o yrru'n beryglus ym mhob achos trwy gyfeirio at y safon a ddisgwylir gan 'yrrwr cymwys a gofalus'. Er mwyn cyhuddo rhywun o yrru'n beryglus rhaid i safon y gyrru gwympo ymhell islaw'r safon a ddisgwylir gan yrrwr cymwys a gofalus a byddai'n amlwg i yrrwr cymwys a gofalus y byddai gyrru yn y fath fodd yn beryglus[3]. Er mwyn cyhuddo rhywun o yrru'n ddiofal y cyfan sy'n rhaid digwydd yw i safon y gyrru gwympo islaw'r safon a ddisgwylir gan yrrwr cymwys a gofalus. Diffinnir y prawf ar gyfer gyrru'n ddiofal yn Neddf Diogelwch y Ffyrdd 2006[4].

   Sylwn fod nifer o ymatebwyr yn ystyried nad yw defnyddio enghreifftiau yn ddefnyddiol wrth wneud yr asesiad hwnnw. Fe gredwn ni, fodd bynnag, ei bod hi'n briodol cynnwys enghreifftiau yn ein canllawiau fel y gall ein herlynwyr sicrhau cysondeb yn eu penderfyniadau. Byddwn yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd rhoi'r holl dystiolaeth o yrru'n beryglus yn ei gyd-destun wrth ystyried a yw amgylchiadau achos neilltuol yn gyfystyr â gyrru'n beryglus, ynteu yrru'n ddiofal. Fe fydd yna bob amser achosion ble bydd y dystiolaeth yn syrthio'n agos at y ffin ond mae'r ymatebion wedi dangos i ni cymaint y mae agweddau'r cyhoedd wedi newid yn ddiweddar. Felly, rydym o'r farn y dylid darparu canllawiau manylach i erlynwyr ynghylch pryd y byddai'n briodol erlyn am drosedd gyrru'n ddiofal yn hytrach na throsedd gyrru'n beryglus.

5. Mae'r berthynas rhwng gormod o gyflymder a gyrru'n beryglus yn enghraifft o hyn. Dangosodd achosion diweddar y DPP v Milton[1] a Milton v Gwasanaeth Erlyn y Goron[2] mor anodd y gall hi fod i sicrhau euogfarn am yrru'n beryglus pan mai cyflymder llwyr ormodol yw'r brif dystiolaeth. Fe fyddwn ni bob amser yn edrych ar dystiolaeth o gyflymder gormodol yng nghyd-destun tystiolaeth dderbyniadwy arall cyn gwneud penderfyniad ynghylch y cyhuddiad perthnasol.

6. Mae nifer o ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r CPS gyd-gysylltu'n fwy agos â'r HSE mewn perthynas â gyrru'n beryglus yn y gweithle. Mae yna eisoes brotocol[3] wedi'i sefydlu rhwng y CPS, yr HSE a'r heddlu mewn perthynas â marwolaethau yn gysylltiedig â gwaith. Byddwn yn cyfeirio ato yn ein canllawiau i erlynwyr, yn eu

[3] Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 (fel y'i newidiwyd) Adran 2A
[4] Deddf Traffig y Ffyrdd 2006 Adran 30
[5] [2006] EWHC 242 (Gweinyddol)
[2] [2007] EWHC 532
[3] http://www.cps.gov.uk/publications/agencies/wrdprotocol.html

hatgoffa o'r angen am gyd-gysylltu'n fuan â'r HSE yn yr achosion hyn a phwysleisio pwysigrwydd adolygu'r holl dystiolaeth dderbyniadwy sy'n tueddu i ddangos rhwymedigaeth gorfforaethol.

7. Rhagwelwn y byddai mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig i bolisi 'anwyliaid' y CPS ac adolygir ein polisi a'n cyfarwyddyd i adlewyrchu hyn. Ein nod yw sicrhau bod ein herlynwyr yn gyson eu hymagwedd tuag at yr achosion hyn.

8. Mae nifer o'r ymatebion yn dangos cymaint o boen a thrawma a achosir i ddioddefwyr a'u teuluoedd a'u cyfeillion o ganlyniad i yrru gwael. Yn nes ymlaen eleni bydd y CPS yn cyflwyno gwell gwasanaeth dan y fenter Canolbwyntio ar Ddioddefwyr, a ddarperir i bawb a gollodd aelod agos o'r teulu mewn achosion ble cyhuddir rhywun o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, marwolaeth trwy yrru'n ddiofal tra'n anffit oherwydd diod neu gyffuriau neu yrru diofal a ddaw gerbron Llys y Goron. Fel rhan o'r fenter, bydd erlynwyr yn cyfarfod teulu mewn profedigaeth yn gynnar yn yr achos er mwyn egluro'r penderfyniadau cyhuddo ac wedyn i'w helpu i ddeall ac ateb eu cwestiynau ynghylch proses y llys. Bydd yr erlynydd yn esbonio fod ganddynt gyfle, os dymunant, i wneud datganiad personol fel dioddefwyr, a bydd yn egluro pwrpas y datganiad fel y gall y teulu wneud penderfyniad gwybodus. Rydym hefyd yn cadarnhau y byddwn yn cadw at Addewid yr Erlynwyr a'i 10 ymrwymiad i ddarparu gwell gwasanaeth i ddioddefwyr trosedd, gan gynnwys pobl mewn profedigaeth, yn yr holl achosion sy'n ymwneud â gyrru gwael.

9. Cydnabyddwn y trallod a achoswyd i ddioddefwyr a'u teuluoedd pan gafodd achosion o yrru gwael a oedd yn cynnwys marwolaeth neu anafiadau difrifol eu galw yn 'ddamweiniau', mewn llysoedd neu rywle arall. Byddwn yn cyflwyno cyfarwyddyd penodol y dylai'r arfer hwn ddod i ben ac y dylid defnyddio'r term 'gwrthdrawiad' ym mhob achos o'r fath.

10. Byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i fater erlynwyr achosion yn mynychu cwest a mynychu'r llys, yn wyneb yr ymatebion a ddaeth i law. Mewn rhai o ranbarthau'r CPS, mae yna drefniadau i erlynwyr achosion fynychu'r llys. Byddwn yn edrych ar y rhain i adnabod a datblygu arfer gorau.

11. Nodwn y farn a fynegir gan nifer o ymatebwyr y dylai pob achos o yrru gwael, lle bu rhywun farw, ddod gerbron Llys y Goron. Y mae'r Senedd, fodd bynnag, wedi pennu y gall y troseddau newydd dan Ddeddf Diogelwch y Ffyrdd 2006 gael eu gwrando mewn llysoedd ynadon yn ogystal â Llys y Goron.

12. Fel y soniwyd ym mharagraff 1 uchod, yn nes ymlaen eleni neu'n gynnar y flwyddyn nesaf, fe gyhoeddir canllawiau'r SGC ar achosion ble achoswyd marwolaeth o ganlyniad i yrru gwael neu yrru anghyfreithlon, cyn i'r troseddau newydd ddod i'r llysoedd, a byddant yn gosod paramedrau ar gyfer dedfrydu yn yr achosion hyn. Dyma fydd y man cychwyn ar gyfer ein polisi a'n cyfarwyddyd yn yr achosion hyn.

Meini Prawf yr Ymgynghoriad

Dyma chwe maen prawf yr ymgynghoriad:

1. Ymgynghori'n eang gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.

2. Bod yn eglur ynghylch beth yw eich cynigion, ar bwy y gallant effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn eglur, yn gryno ac ar gael yn eang.

4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a dderbyniwyd a sut y gwnaeth proses yr ymgynghoriad ddylanwadu ar y polisi.

5. Monitro effeithlonrwydd eich adran wrth ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cyd-gysylltydd ymgynghoriad dynodedig.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn cadw at arferion gorau gwell rheoleiddio, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yw hynny'n briodol.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghorol.

ATODIAD A

1. YMATEBWYR UNIGOL

Mr a Mrs Aldam
Roger Alma
G Angell
Mr Antell
Michael Appleby
Jay Ashford-Scott
Andrew Avis
Roland A Baker
Miss Joanne (Barry) Browning)
James Boydell
Mrs J Brain
Mr R F Brown
Jay Calascione
R J Calder a C L Calder
Mr Geoffrey Calver
Mr Michael Chance
Chris yn SP-Plastics
Geoff Crocker
Mike Croker
Stephen Down
Rebecca Drake
Ms Valerie Dunn
Richard Erbe
Timothy Ford
Malcolm B Fox
Gordon yn Bausant
Eillen Haksey
Mr M N Hargreaves
Mr Jon Harland
Mrs J Harrison
Mr Keith Hester
Mrs S Hiley
T Higgins OBE JP DL
Matt Hodges
Roger Holden
Judith a Keith Hopkins
Jonathan Horan
Terry Hudson
Mrs C Jackman Taylor

Ms Sue Jackson BSc. Diploma Uwch mewn Cynghori
Michael R Jones
Howell Jordan
Stephen Kinsella
Mr B Kirk
Mrs Jacquie Leach
Lisa Linn
Mr a Mrs P Living
Richard Lockwood
Mrs Joanna McCarthy
Keith Malone
Mrs Pam Manser
Jonathan Mitchell
Brian Morris
Ms Juliet Morse
Nicholas Moss
Robert Newman
Bruce Nixon
Stephen Noake
David Nye
Carol Pardoe
Mrs Anne Pickett
Graeme Poole
Shaun Porritt
Ted Prangnell
M C Rafferty
John Revell
Mike Roberts
Laura Robertson Lancet
Paul S Robinson
David Rodgers
Bruce Rushworth
Mr John Ryder
Barbara Sacher
Gavin Smith
Philip Stanbury
Sue Stapely
John Stevenson
Dr William Stevenson
Mr a Mrs D Sumpter
Susan and Barrie Tait
Mrs Rita Taylor
Nick Theobald
Mrs E J Voysey

Mrs Bridget M J Wall
Alan Ward
Mrs Carol Ward
Mr a Mrs C Webb
Jim Whelan
Martin Whitlock
Steve Whiteside
Tony Wiggins
Graham Wild
Ann Wooldridge
Mrs Julia Wright
Lesley Young

2. SEFYDLIADAU

Brake – Elusen Genedlaethol Diogelwch y Ffyrdd
BVRLA – Cymdeithas Brydeinig Hurio a Rhentu Cerbydau
CWU – Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu
CTC – Sefydliad Cenedlaethol y Seiclwyr
IAMMT – Sefydliad Gyrwyr Uwch
Living Streets – Elusen Genedlaethol
Ymgyrch Seiclo Llundain
Network Rail
Norwich Union
PACTS – Cyngor Ymgynghorol Seneddol er Diogelwch Trafnidiaeth
RoadPeace
RoSPA – Cymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau
Menter Slower Speeds
Elusen Sustrans
The Bike Zone
The Newspaper Society
T & G – Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol
T & G – y Gogledd
Cymorth i Ddioddefwyr

3. ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL

Heddlu Avon a Gwlad yr Haf
Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal
CPS Caint
CPS Gwasanaeth Erlyn Traffig Llundain
CPS Swydd Nottingham
CPS Gorllewin Mersia
Sefydliad y Bar Troseddol
Heddlu Hampshire
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Pwyllgor Diwygio'r Gyfraith Cyngor y Bar Cymru a Lloegr
Cymdeithas yr Ynadon
Gwasanaeth Heddlu Llundain
Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr
PPS Gogledd Iwerddon
Heddlu Dyffryn Tafwys
Heddlu Gogledd Swydd Efrog

4. ACADEMYDDION

Yr Athro C M V Clarkson
Dr Sally Cunningham
Patrick Howorth
Dr Richard Bristow
Dr David Horton
Dr Haddock
David Baillie